# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS
## *COMMUNITY COUNCIL*

CLERC : Tom JONES, 22 Endsleigh Road, Hen Golwyn Ffon : 01492 515999 / 07774 833523
e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

## AGENDA

**Y CYFARFOD I'W GYNNAL YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS**
**AM 7.30yh, NOS LUN 5ed o CHWEFROR 2024**

1. **CROESO**

2. **PRESENNOL** - Yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd yn bersonnol neu drwy linc Zoom: https://us02web.zoom.us/j/86319338694?pwd=eGUvYTVndjVUNHMxcFZkV245eFBUQT09

   Meeting ID: 863 1933 8694 Passcode: 126808

3. **YMDDIHEURIADAU**

4. **DATGAN DIDDORDEB** - Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddynt ddatgan bodolaeth a natur unrhyw fantais bersonol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer y pwrpas hwnnw. Fe ddywed y Cynghorydd Lloyd ei fod ef yn Gadeirydd Cyngor Sirol Bwrdeistref Conwy a na allai gymryd rhan mewn penderfyniadau megis ceisiadau cynllunio, ond y ceisiai ateb unrhyw gwestiwn nad oedd yn gysylltiedig ag unrhyw benderfynu.

5. **COFNODION** – I gymeradwyo, cadarnhau ac arwyddo cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 8fed o Ionawr 2023.

6. **MATERION YN CODI**.

7. **CYLLID** – I gadarnhau yr Adroddiad Cyllid Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Ionawr 2023

8. **GOHEBIAETH**

9. **GRANTIAU**

10. **CYNLLUNIO** - **http://www.conwy.gov.uk/poryddcynllunio**

    a. Rhif y Cais: 0/51140
       Natur y Cais: Rhyddhau Amod Derbyniwyd : 05/10/2023 Cofrestrwyd: 09/10/2023
       Natur y Datblygiad: Datblygiad Newydd

Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Glan Gors Ffordd Galch Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 6BD
Cymeradwyo amod rhif 3 (Deunyddiau) & 4 (Arolwg Ffotograffig) ar ganiatâd cynllunio 0/48997(Adnewyddu cymeradwyaeth cynllunio 0/43196 (annedd amnewidyn arfaethedig).
Mae'r cais yma yn dal i gael ei gysidro.

b. Rhif y Cais: 0/51278 Natur y Cais: Llawn
Derbyniwyd: 29/11/2023 Cofrestrwyd: 30/11/2023
Natur y Datblygiad: Newid Defnydd Tir
Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Nant Isa Farm Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EFLleoliad:
Newid defnydd tir - safle glampio.
Llythyr wedi ei anfon I Adran Gynllunio CBSC yn gofyn sawl uned sydd yn cael ei ystyried, ac hefyd ofnau yngyn a mynediad ac hefyd hydrwytghiad o'r math yma o ddatblygiad.

c. Rhif y Cais: 0/51409 LlawnNatur y Cais:Llawn
Derbyniwyd :22/01/2024 Cofrestrwyd: 25/01/2024
Natur y Datblygiad:Aelwyd
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Airlie Dolwen Road Betws Yn Rhos LL22 8AT
Gwneud newidiadau a chodi estyniad portsh yn elfen unllawr y ty presennol. Mae'r newidiadau'n cynnwys to teils newydd gyda phaneli solar. Gwneud gwelliannau thermal gan inswleiddio'r waliau allanol gyda gorffeniad rendr neu goed. Addasu'r trefniant mewnol a'r agoriadau allanol. Dymchwel yr ystafell haul bresennol ac adeiladu pergola.

d. Rhif y Cais: 0/51382 Natur y Cais: Llawn
Derbyniwyd : 15/01/2024 Cofrestrwyd: 16/01/2024
Natur y Datblygiad: Newid Defnydd Tir
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
LLeoliad: Land to the East of Llwyn Elian Llanelian, Colwyn Bay, LL29 8UY
Defnydd tir dros dro ar gyfer lleoli carafán sefydlog yn cynnwys llwybr graean dros dro, grisiau pren a maen hir / slab ar gyfer teiars carafanau a choesau cynnal.

**11. ARCHWILIAD ALLANOL A MEWNOL**

**12. MATERION Y CYNGOR SIR A CYNG IFOR LLOYD**.

**13. CYNNAL A CHADW, A GWEITHGAREDDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

a. Diffibrilwyr
b. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol.
c. Yr Hwb – Angen gwirfoddolwyr i edrych ar ol Yr Hwb o 9:00yb hyd 12:00yh bob bore Dydd Mawrth yng Nghanolfan Chwaraeon, Betws yn Rhos.
d. Ail-leoli'r gwlau blodau newydd ger mynedfa Caeau Chwaraeon Betws yn Rhos.
e. Hen doiledau Betws yn Rhos / Hyrwyddo toiledau cyhoeddus arall yn y pentre.
f. Angen lledu y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos.
g. Parcio amhriodol ym mhentref Llanelian.

**14. CYLLID BLYNYDDOL / PRAESEPT**

**15. FFERMYDD GWYNT A SOLAR**

**16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

**17. Y GADLAS**

**18. UNRHYW FATER ARALL**.

a. Sefyllfa cyfrifon grant y Paneli Solar

b. Helynt cymdogion / creu niwsans yn Bod Elian, Llanelian